11/06/2014

Annwyl Bennaeth

**PAR:- CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDOLG O'R ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Mae CYSAG yn gorff statudol o fewn y Cyngor gyda'r amcan o hyrwyddo'r safonnau uchaf o fewn Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd.

Mae aelodaeth y Corff yn cynnwys aelodau etholedig, yr enwadau crefyddol, athrawon ac aelodau cyfetholedig.

Ysgrifennaf atoch i ofyn am eich cydwethrediad gyda'r ceisiadau canlynol gan y Corff.

1) **Adroddiadau hunan arfarnu**

Mae'r Corff yn awyddus i dderbyn adroddiadau hunan arfarnu oddi wrth yr ysgolion i'w trafod o fewn eu cyfarfodydd tymhorol. Amgaeaf adroddiad Ysgol Corn Hir sydd wedi ei adnabod yn genedlaethol fel esiampl o arfer da.

a) Gofynnir i'r ysgolion canlynol gyflwyno eu hadroddiadau erbyn 24 Hydref, 2014.

| | | |
|---|---|---|
| **Gyfun Llangefni** | Llangoed | Llanfechell |
| **Syr Thomas Jones** | Parch.Thomas Ellis | Goronwy Owen |
| Parc | Llannerchymedd | Biwmares |
| Pencarnisiog | Esceifiog | Caergeiliog |
| Bodffordd | Llangaffo | Santes Fair |
| Ffrwd Win | Parc y Bont | Y Borth |

b) Gofynir i'r ysgolion canlynol gyflwyno eu hadroddiadau erbyn 13 Chwefror, 2015.

| | | |
|---|---|---|
| **David Hughes** | Bodorgan | Kingsland |
| **Y Bont** | Amlwch | Llanfawr |
| Talwrn | Llandegfan | Morswyn |
| Cylch y Garn | Y Graig | Rhosneigr |
| Rhoscolyn | Llanfairpwllgwyngyll | Dwyran |
| Bodedern | Niwbwrch | Henblas |

c) Gofynnir i'r ysgolion canlynol gyflwyno eu hadroddiadau erbyn 22 Mai, 2015.

| | | |
|---|---|---|
| **Uwchradd Bodedern** | Brynsiencyn | Llanbedrgoch |
| **Uwchradd Caergybi** | Penysarn | Y Tywyn |
| Llaingoch | Carreglefn | Pentraeth |
| Moelfre | Rhosybol | Y Ffridd |
| Corn Hir | Llanfachraeth | Bryngwran |
| Y Fali | Cemaes | |

Ni rhagwelir y bydd hyn yn faich ychwanegol gan fod angen cwblhau'r gwaith o fewn trefniadau hunan arfarnu'r ysgol gan gydgysylltydd y maes o fewn yr ysgol.

2) **Ymweliadau Addoli ar y Cyd**

Mae aelodau'r Corff yn awyddus i fynychu cyfnod addoli ar y cyd o fewn ysgol. Yn y lle cyntaf gofynnir am ysgolion i wirfoddoli ac i gynnig eu hunain. Dylech wneud hyn drwy lenwi'r daflen ar ddiwedd y llythyr a'i ddanfon yn ôl i fy sylw. Byddaf wedyn yn trefnu i un o'r aelodau gysylltu gyda chwi i drefnu amser a dyddiad cyfleus. Bwriad hyn yw i'r aelod ymuno yn yr addoli <u>nid i arwain</u>; mae'r aelodau yn awyddus i fod gyda'r staff a'r disgyblion er mwyn cael ymdeimald o brofiadau'r disgyblion yn y maes allweddol hwn.

Pe dymunwch gellwch ddangos ychydig o waith y disgyblion i'r ymwelydd ond nid oes unrhyw fwriad i droi'r ymweliad yn ryw fath o arolygiad.

Bydd y llythyr hwn a'r adroddiad hunan arfarniad ar wefan Addysg Môn.

Yn gywir

Gareth Jones
Clerc CYSAG
Swyddog Addysg

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYSAG / *SACRE*

## ADDOLI AR Y CYD / *COLLECTIVE WORSHIP*

**Ysgol/**
***School*** ________________________________________

Mae'r ysgol yn awyddus i wahodd aelod o CYSAG draw i ymuno gyda'r disgyblion a'r staff wrth addoli ar y cyd.

*The school is keen to invite a member of SACRE to join in collective worship with the pupils and staff.*

**Arwyddwyd/*Signed***

**Pennaeth:**
***Headteacher*:-** ____________________________________________________

**Dyddiad**
***Date*** **:-** _______________________________________________________